## 2010 (Theme: Heritage)

### Etifeddiaeth

gan * Darllenir yn y dras y glod

A blethir yn y gadwyn bod Sef glasbrint bywyd anghenraid; Ein hysgol i'r hynafiaid.

Merched Beca, meibion bro, Merthyron y meysydd glo; Y rhai i ffosydd Fflandrys aeth; Arwyr Aneurin, ffyddlon, ffraeth;

Gwenllian lew, a'r lodes lân A aeth yn santes ar wahân; Amaethwyr teilwng, mamau'r tir A faethai'n llinach, hynafol, hir;

Y Mab Darogan a'i wrol lu, Bôn y bonheddig Gymru fu; Cnafon clyfar, cywyddwyr craff, Y rhai ddihangai rhag y rhaff,

A'r gwasgaredig, gadwai'r iaith Yn fyw, dros ganrif ar y paith, Cefndryd y cyfandiroedd pell; Ysgrythwyd popeth yn y cell.

Ond tu hwnt i'n hanes tyn Mae etifeddiaeth fwy na hyn: Mewn gwead gwaed, ein dynol dras, Ar dapin fyw y ddaear las.

Pob moliciwl a ymolcha'r glaw, Pob rhyw atom a atom ddaw Yn rhan ohonom, ac ar y gwynt Anadlwn ni genhedloedd gynt.

O Gaer Gwydion, a'i ddisglair graidd, O ddyfnder amser, wrth ei wraidd; O sylfaen sêr i'n marwol gnawd, Ein llinach ni yw'r byd—a'i ffawd.